

Enzalutamide ar gyfer trin canser metastatig hormon-atglafychol y prostad cyn y caiff cemotherapi ei ddefnyddio

Ionawr 2016

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir [Enzalutamide](#) (Xtandi) fel triniaeth posibl ar gyfer pobl sydd â [canser metastatig hormon-atglafychol y prostad](#) sydd â symptomau ysgafn neu ddim symptomau o gwbl lle nad yw triniaeth atal androgenau yn gweithio mwyach, a chyn y bod angen triniaeth cemotherapi.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych [ganser metastatig hormon-atglafychol y prostad](#), a bod eich meddyg o'r farn mai enzalutamide yw'r driniaeth gywir i chi, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai enzalutamide fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis i gyhoeddi'r canllawiau.

Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Argymhellwyd enzalutamide oherwydd bod y buddiannau i gleifion yn cyfiawnhau ei gost.

Y cyflwr a'r driniaeth (triniaethau)

Pan fydd canser y prostad wedi lledaenu i ran arall o'r corff, fe'i gelwir yn ganser datblygedig neu metastatig y brostad. Yn y mwyafrif o ddynion sydd â chanser y brostad, gall yr hormon testosteron wneud i'r canser dyfu ynghynt. Felly gellir trin canser y prostad â chyffuriau sy'n gwneud i'r corff gynhyrchu llai o destosteron, neu i adweithio iddo mewn ffordd wahanol. Gelwir hyn yn driniaeth atal androgenau.

Ar ôl cyfnod, gallai'r canser beidio ag ymateb i driniaethau o'r fath - gelwir hyn yn ganser 'hormon-atglafychol'.

Mae enzalutamide (Xtandi) yn gyffur arall sy'n gweithio drwy atal testosteron rhag cyrraedd celloedd canser. Defnyddir cemotherapi i reoli canser metastatig y brostad nad yw'n ymateb i therapi hormonau, a gall leihau symptomau.

[Gall NHS Choices](#) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Ffynonellau cyngor a chymorth

- Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040, www.cancerresearchuk.org/about-cancer
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000, www.macmillan.org.uk
- Prostate Cancer UK, 0800 074 8383, www.prostatecanceruk.org
- Tackle prostate cancer, 0845 601 0766, www.tackleprostate.org

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1798-3